



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Crynodeb o ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Ganllawiau Technegol Cynllun Sychder y Cwmnïau Dŵr

Rhagfyr 2017

Cynnwys

1 Cyflwyniad	3
2 Crynodeb o'r ymatebion.....	3
Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad. Trothwyon a sefyllfaoedd sychder.....	3
Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad. Camau gweithredu rheoli sychder (ochr galw a chyflenwi)	5
Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad. Cynlluniau cysylltiedig	5
Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad. Sut i asesu effeithiau camau gweithredu ar yr amgylchedd.....	6
Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad. Lliniaru a monitro amgylcheddol	8
Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad. Cynllun cyfathrebu sychder.....	9
Adborth cyffredinol ar y canllawiau.....	10
3 Y Camau Nesaf	13

1 Cyflwyniad

Mae angen i gwmnïau dŵr Cymru a Lloegr baratoi a chynnal cynlluniau sychder o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003. Mae cynllun sychder yn amlinellu sut y bydd cwmnïau dŵr yn cyflenwi dŵr i'w cwsmeriaid yn ystod cyfnodau o law isel pan fod y cyflenwad dŵr yn gwagio, wrth leihau unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'w gweithredoedd yn ystod sychder. Dylai amlinellu'r camau gweithredu tymor byr y byddant yn eu cymryd cyn, yn ystod ac ar ôl sychder.

Gwnaethom ymgynghori ar ein canllawiau drafft technegol ar gyfer cynllun sychder y cwmnïau dŵr. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu beth ddylai'r cwmnïau dŵr sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru eu cynnwys yn eu cynlluniau drafft ar gyfer sychder (2019). Cafodd eu cynllunio i'w helpu i lunio cynllun sy'n cydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol a pholisi Llywodraeth Cymru. Mae [egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru](#) ar gyfer datblygu cynlluniau sychder wedi'u cyhoeddi ar wahân i'r canllaw hwn ac maent yn amlinellu'r broses statudol ar gyfer cynllun sychder, a'r disgwyliadau polisi, gan gynnwys amserlenni.

Os ydych chi'n gwmni dŵr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, gyda safleoedd sy'n effeithio ar Gymru, bydd angen i chi ddilyn y [canllaw drafft sychder i gwmnïau dŵr](#) gan DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd wrth ddatblygu eich cynllun. Wrth ddatblygu cynnwys eich asesiadau amgylcheddol, cynlluniau monitro amgylcheddol, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer camau gweithredu rheoli sychder yng Nghymru, dylech gyfeirio at ein canllawiau. Bydd y rhain yn cynorthwyo wrth gynnal unrhyw drafodaethau gyda ni ynglŷn â chynnwys eich asesiadau ar gyfer camau gweithredu ar yr ochr gyflenwi yng Nghymru. Yn ogystal, bydd yn rhaid i chi ystyried eich ymrwymadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer y safleoedd hyn.

2 Crynodeb o'r ymatebion

Gwnaethom dderbyn pedwar ymateb yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Mae rhestr o'r ymatebwyr fel a ganlyn:

- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Ofwat
- Severn Trent / Dŵr Dyffryn Dyfrdwy
- Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru

Mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu ein hymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd.

Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad. Trothwyon a sefyllfaoedd sychder

Mae gofyniad statudol i gwmnïau dŵr gynnwys eu trothwy(on) sychder dewisol a sut maent wedi profi eu cynllun yn erbyn sefyllfaoedd sychder gwahanol. Rydym yn eu hannog yn gryf i gynllunio ar gyfer sychderau heriol ond credadwy sydd y tu hwnt i alluoedd eu system gyflenwi. A oes unrhyw beth arall y dylai cwmnïau dŵr yng Nghymru eu hystyried o ran trothwyon a sefyllfaoedd?

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn credu bod y canllawiau yn gynhwysfawr o ran trothwyon a sefyllfaoedd sychder. Roedd un o'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi tynnu sylw at yr her gwydnwch o brofi sefyllfaoedd sy'n gredadwy ond yn fwy eithafol na'r cofnodion hanesyddol.

Gwnaed sylw o ran rhai diwydiannau sydd angen cyflenwad dŵr at ddibenion diogelwch yn ystod sychder. Mae hyn yn cynnwys yr atomfeydd arfaethedig newydd yn Wylfa ac yn Hinkley yng Ngwlad yr Haf. Roedd un o'r ymatebwyr yn cwestiynu a oedd angen i gwmnïau dŵr yng Nghymru gael eu hysbysu o ofynion cyflenwad dŵr y gorsafoedd hyn, yn enwedig beth oedd eu gofynion ar gyfer cynllun argyfwng a pha un ai a oes angen i'r cyflenwad i'r gorsafoedd hyn gymryd blaenoriaeth dros gyfleusterau diwydiannol eraill.

Ni nodwyd unrhyw bryderon eraill gan yr ymatebwyr.

Ein hymateb

O ran y sylw olaf, mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd statudol i ddatblygu cynlluniau sychder sy'n amlinellu sut y byddant yn diogelu cyflenwadau dŵr i'w cwsmeriaid yn ystod sychder. Mae'n rhaid bod gan y cwmni dŵr ddealltwriaeth o anghenion eu cwsmeriaid (wedi'u rhannu'n gartrefi a'r rhai nad ydynt yn gartrefi) yn ystod cyfnodau allweddol megis sychder. Bydd y cwmni dŵr yn cyfathrebu gyda'i gwsmeriaid (yn unol â'r diffiniad yn ei gynllun cyfathrebu) yn ystod sychder, yn enwedig os yw'r cyflenwad mewn perygl a beth maent yn ei wneud i'w ddiogelu.

Gall y cwmni osod cyfyngiadau dros dro ar alw ar gyfer defnyddiau penodol o ddŵr naill ai drwy weithredu [Gwaharddiad Defnydd Dros Dro](#) a/neu wneud cais am orchymyn sychder ar gyfer Gwaharddiad Defnydd Nad yw'n Hanfodol. Cyn iddynt osod unrhyw rai o'r cyfyngiadau hyn ar eu cwsmeriaid, mae angen i'r cwmni ymgynghori'n gyhoeddus ar ba ddefnyddiau dŵr fydd yn cael eu cyfyngu, am ba mor hir ac i bwy. Mae hyn yn caniatáu i'r cwsmeriaid (sy'n destun y gwaharddiad) wneud sylwadau i'r cwmni os oes ganddynt unrhyw bryderon o ran gweithredu'r cyfyngiadau ar ddefnydd dŵr.

O ran cyfeirio'n benodol at orsafoedd pŵer neu unrhyw gwsmer nad yw'n gartref, bydd y cwmni dŵr yn deall eu hanghenion (gan gynnwys yn ystod cyfnodau allweddol) drwy unrhyw drafodaethau a chytundebau cyflenwad dŵr maent wedi'u gwneud gyda nhw. Os bydd angen cyflenwadau dŵr ar y cwsmeriaid hyn at ddibenion diogelwch yn ystod sychder, bydd y defnydd dŵr hwn yn cael ei gategoreiddio fel hanfodol i fusnes a/neu ar gyfer rhesymau iechyd a diogelwch. Noder nad yw'r defnydd dŵr hwn yn destun unrhyw gyfyngiadau o dan Waharddiad Defnydd Dros Dro neu Waharddiad Defnydd Nad yw'n Hanfodol.

Ar gyfer argyfyngau sifil, bydd y gweithgareddau hyn yn dod o dan y cynlluniau argyfwng, sy'n ddogfennau ar wahân i gynlluniau sychder y cwmnïau dŵr. Felly, maent yn syrthio y tu allan i gylch gwaith y canllawiau hyn.

Cam gweithredu

Ni chynigiwyd unrhyw welliant pellach ar gyfer y canllawiau cynllun sychder.

Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad. Camau gweithredu rheoli sychder (ochr galw a chyflenwi)

A oes unrhyw gamau gweithredu rheoli sychder eraill y dylai cwmnïau dŵr eu hystyried na chaiff eu cwmpasu gan y canllawiau hyn?

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn credu bod y canllawiau yn gynhwysfawr o ran camau gweithredu rheoli sychder. Gwnaeth un o'r ymatebwyr sylw ar ystyried digwyddiadau eraill o dywydd eithafol, e.e. amodau rhewi difrifol, llifogydd eithafol.

Ni nodwyd unrhyw bryderon eraill gan yr ymatebwyr.

Ein hymateb

Mae'r canllaw yn benodol ar gyfer cynlluniau sychder cwmnïau dŵr sy'n amlinellu'r camau gweithredu tymor byr y byddant yn eu cymryd er mwyn cyflenwi dŵr i'w cwsmeriaid yn ystod cyfnodau isel o law pan fod y cyflenwad dŵr wedi gwagio. Nid yw'n ofyniad i'r cynllun sychder ystyried yn benodol y camau gweithredu i gwmnïau ar gyfer ymateb i amodau rhewi neu lifogydd difrifol. Caiff polisi sychder ar gyfer cwmnïau sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ei amlinellu ar wefan Llywodraeth Cymru: llyw.cymru/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/drought/?skip=1&lang=cy

Fodd bynnag, bydd cwmnïau dŵr yn ystyried peryglon o ddigwyddiadau eithafol eraill, megis rhewi, llifogydd dŵr arwyneb a/neu lifogydd asedau, drwy fecanweithiau cynllunio statudol eraill megis cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynlluniau busnes (fel y'i diffinnir gan Ofwat) a chynlluniau argyfwng.

Cam gweithredu

Ni chynigiwyd unrhyw welliant pellach ar gyfer y canllawiau cynllun sychder.

Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad. Cynlluniau cysylltiedig

Mae'r canllawiau yn cyfeirio at gynlluniau perthnasol eraill y dylai'r cwmnïau dŵr eu hystyried.

Dywedwch wrthym os oes unrhyw gynlluniau a phrosesau rydych chi'n teimlo eu bod yn berthnasol i gynlluniau sychder y dylai'r cwmnïau eu hystyried.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn credu bod y canllawiau yn cyfeirio'n ddigonol at gynlluniau perthnasol eraill.

Gwnaeth un o'r ymatebwyr gynnwys sylw ynglŷn ag a allai cynlluniau sychder y cwmnïau dŵr gynnwys gorsafodded ynni dŵr fel rhanddeiliaid ar gyfer cyfathrebu, pan fo lefelau dŵr yr afon yn is nag sydd eu hangen ar y twrbeini, e.e. Cored Radyr yng Nghaerdydd ac yn System Storio Pwmp Dinorwig.

Ni nodwyd unrhyw bryderon eraill gan yr ymatebwyr.

Ein hymateb

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gan orsaf ynni dŵr yng Nghymru, fel Cored Radyr yng Nghaerdydd, gytundeb trwydded gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai trwydded tynnu dŵr ar gyfer cynhyrchu pŵer trydan dŵr yn caniatáu i'r deiliad dynnu dŵr o dan lif penodol a gallai osod cyfyngiadau tynnu dŵr yn ystod llif isel (fel y'i diffinnir gan y drwydded). Dyletswydd Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd (ar gyfer Lloegr) yw sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodi'r amodau trwydded hyn.

Bydd unrhyw gyfathrebu o ran gweithredu'r drwydded, gan gynnwys lefelau afonydd, rhwng y rheoleiddiwr a deiliad y drwydded. Yn aml, caiff dulliau o fesur llif afonydd a ble i gael y wybodaeth eu diffinio yn y drwydded. Felly, o dan yr amgylchiadau hyn, nid cyfrifoldeb y cwmni dŵr yw hysbysu'r orsaf ynni dŵr o gyflwr llif yr afon.

Pan fo gorsaf trydan dŵr yn un o gwsmeriaid uniongyrchol ar gyfer prif gyflenwad dŵr o'r cwmni dŵr neu mae ganddi adnodd a rennir (er enghraifft, mewn cronfa ddŵr), bydd cwmnïau dŵr yn cyfathrebu gyda nhw fel rhanddeiliad yn ystod sychder (fel y'i diffinnir gan y cynllun cyfathrebu).

Cam gweithredu

Ni chynigiwyd unrhyw welliant pellach ar gyfer y canllawiau cynllun sychder.

Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad. Sut i asesu effeithiau camau gweithredu ar yr amgylchedd

Mae'n rhaid i gwmnïau dŵr ystyried yr amgylchedd yn ystod sychder. Bydd hefyd yn rhaid iddynt ystyried eu hymrwymiaidau o ran Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd ar yr ochr gyflenwi (er enghraifft, trwydded sychder neu safleoedd dan orchymyn).

Ydy'r canllawiau ar asesiad amgylcheddol yn caniatáu i'r holl 'effeithiau amgylcheddol posibl' gael eu nodi yn ystod sychder (gwaelodlin) ac ar ôl cymryd cam gweithredu? Dywedwch wrthym os oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylai'r cwmnïau dŵr eu hystyried.

Ar y cyfan, mae'r ymatebwyr yn credu bod y canllawiau yn caniatáu i effeithiau amgylcheddol posibl gael eu hasesu'n briodol.

Gofynnodd un o'r ymatebwyr am reoli gollyngfeydd i afonydd pan fod lleihad yn llif yr afon.

Hefyd, holodd am sut mae'r cwmni'n ystyried effeithiau cymdeithasol ar gwsmeriaid nad ydynt yn gartrefi sy'n dibynnu ar ddŵr os ydynt yn methu â chynhyrchu, e.e. cwmnïau cynhyrchu bwyd, gwneuthurwyr papur.

Ni nodwyd unrhyw bryderon eraill gan yr ymatebwyr.

Ein hymateb

O ran gollyngfeydd i afonydd, fel gollyngiad i ddŵr a reolir, byddai'r gweithgaredd hwn yn destun Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 (proses statudol sydd ar wahân i gynlluniau sychder cwmni dŵr). Mae'n bosibl y byddai angen i unrhyw un yng Nghymru sy'n mynd i wneud gollyngiad i ddŵr arwyneb (er enghraifft, afon, nant, aber neu'r môr) neu ddŵr daear (gan gynnwys system ymdreiddiad) wneud cais am drwydded amgylcheddol. Gallai rhai gweithgareddau gollwng dŵr risg isel fod yn gymwys ar gyfer cofrestrriad eithriad yn hytrach na thrwydded amgylcheddol.

Os ydych chi'n gwneud cais am drwydded amgylcheddol ac yn ei derbyn, bydd arni amodau penodol fydd angen eu bodloni er mwyn amddiffyn yr amgylchedd. Darperir canllawiau hefyd sy'n disgrifio'r safonau a'r mesurau mae'n rhaid iddynt eu defnyddio er mwyn rheoli'r peryglon mwyaf cyffredin o lygredd o'u gweithgaredd a sut i gydymffurfio ag amodau'r drwydded. Mae canllawiau cyffredinol ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: <https://cyfoethnaturiol.cymru/permits-and-permissions/water-discharges/discharges-to-surface-water-and-groundwater/guidance/?lang=cy>

Noder bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol am bennu trwyddedau amgylcheddol yn Lloegr.

Er mwyn ymateb i sut mae cwmni dŵr yn ystyried effeithiau cymdeithasol ar gwsmeriaid nad ydynt yn gartrefi sy'n dibynnu ar ddŵr, e.e. cwmnïau cynhyrchu bwyd a gwneuthurwyr papur, mae gennym y canlynol:

Deiliaid trwydded tynnu dŵr eraill nad ydynt yn gartrefi

- Os oes gan gynhyrchwr bwyd neu ddiwydiant arall ei drwydded tynnu dŵr ei hunan (h.y. nid yw'n ddibynol ar y prif gyflenwad gan y cwmni dŵr), yna bydd yn destun amodau trwydded fel y'i diffinir gan y rheoleiddiwr, e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd. Ar adeg sychder, mae'n bosib y bydd rhai cyfyngiadau'n cael eu gosod ar ddeiliaid y trwyddedau hyn. Byddai diogelwch bwyd yn ystyriaeth gan y rheoleiddiwr cyn cyfyngu ar unrhyw dynnu dŵr.
- Mae'n rhaid i gwmni dŵr asesu effeithiau ei weithredoedd rheoli sychder ar ei ochr gyflenwi (e.e. trwyddedau/gorchmynion sychder) drwy gynnal asesiad amgylcheddol. Mae'n rhaid i'r asesiad amgylcheddol ystyried yr effeithiau (gan gynnwys y rhai cymdeithasol/economaidd) i dynwyr/defnyddwyr dŵr eraill yng nghyffiniau'r cynnig (yr ardal yr effeithir arni o bosib). Felly, mae'n rhaid i'r cwmni ystyried sut y bydd yn effeithio ar dynwyr dŵr eraill o fewn y cynllun sychder.
- Yn ogystal, dylai'r cwmnïau dŵr gynnal asesiad amgylcheddol strategol o'u cynllun, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol/economaidd gweithredu unrhyw gamau a gynigir yn eu cynllun.

Cwsmeriaid nad ydynt yn gartrefi sy'n uniongyrchol ddibynol ar y prif gyflenwad

- Os yw cwmni dŵr yn mynd i gymryd camau gweithredu i reoli galw sy'n effeithio ar gwsmeriaid nad ydynt yn gartrefi, er enghraifft Gwaharddiad Defnydd Dros Dro a Gwaharddiad Defnydd Nad yw'n Hanfodol, mae'n rhaid iddo ystyried unrhyw effeithiau

posibl ar y busnesau hyn. Mae unrhyw ddefnydd dŵr sy'n hanfodol i fusnes, fel cynhyrchu bwyd, yn annhebygol o gael ei gyfyngu gan y cwmni dŵr.

Cam gweithredu

Ni chynigiwyd unrhyw welliant pellach ar gyfer y canllawiau cynllun sychder.

Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad. Lliniaru a monitro amgylcheddol

A yw'r canllawiau ar liniaru amgylcheddol yn caniatáu digon o amddiffyniad i'r amgylchedd yn ystod sychder?

A yw'r canllawiau ar fonitro amgylcheddol cyn, yn ystod ac ar ôl sychder yn ddigon clir? Sut y gellid eu gwella?

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn credu bod y canllawiau yn caniatáu digon o amddiffyniad a'u bod yn glir o ran gofynion monitro.

Dyweddodd un o'r ymatebwyr nad yw'n ymddangos fel pe baent yn crybwyll trwyddedau gollyngfeydd carthffosiaeth i afonydd. Nododd y byddai'n disgwyl i'r cwmnïau dŵr gynnwys lefelau trothwyon ar gyfer lefel/cyfaint yr afon lle y gallai fod angen i ddiwydiannau gyda thrwyddedau gollyngfeydd mawr gyfyngu ar eu gollyngfeydd. Yn yr un modd, dylai cyswllt i drwyddedau tynnu dŵr fod ar waith.

Ein hymateb

Mae'n bosibl y bydd angen i unrhyw un sy'n mynd i ollwng neu dynnu dŵr o ddŵr wyneb (er enghraifft afon, nant, aber neu'r môr) neu ddŵr daear (gan gynnwys drwy system ymdreiddiad) wneud cais am drwydded amgylcheddol neu drwydded tynnu dŵr. Mae rhai gweithgareddau gollwng a thynnu dŵr wedi'u heithrio ac mae'n bosibl na fydd angen trwydded arnynt.

Mae'n rhaid i unrhyw geisiadau yng Nghymru gael eu gwneud i Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff ceisiadau yn Lloegr eu pennu gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Os ydynt yn cael eu caniatáu, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn penderfynu ar yr amodau neu'r cyfyngiadau i ollyngiadau neu dynnu dŵr.

Nid cyfrifoldeb y cwmni dŵr yw gosod lefelau trothwyon ar gyfer lefelau/meintiau lle bydd angen cyfyngu ar drwyddedau gollyngfeydd mawr. Bydd unrhyw gyfathrebu o ran gweithredu'r caniatâd/trwydded, gan gynnwys lefelau afon, rhwng y rheoleiddiwr a deiliad y drwydded. Caiff unrhyw gamau cydymffurfio/gorfodi eu cymryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cam gweithredu

Ni chynigwyd unrhyw welliant pellach ar gyfer canllawiau'r cynllun sychder.

Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad. Cynllun cyfathrebu sychder

Mae cynlluniau cyfathrebu sychder yn rhan bwysig o gynllunio ar gyfer sychder a dylai cwmnïau dŵr amlinellu pa gamau gweithredu maent yn bwriadu eu cymryd yn ystod sychder a gyda phwy y byddant yn cyfathrebu.

A oes digon o ganllawiau ar gyfer cwmnïau dŵr ar sut y dylent gyfathrebu gyda chwsmeriaid, busnesau a sefydliadau eraill yn ystod sychder? Dywedwch wrthym os oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylai cwmnïau dŵr ei hystyried.

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu bod y canllawiau yn gynhwysfawr.

Dyweddodd un o'r ymatebwyr fod angen i'r cynlluniau cyfathrebu ddarparu rhybudd ymlaen llaw i gwmnïau diwydiannol mawr o lefelau cyflenwad sy'n gostwng, h.y. cyn i'r sychder gael ei ddatgan.

Hefyd, nododd y bydd gan ddiwydiannau penodol, e.e. niwclear, petrogemegol, eu cynlluniau argyfwng eu hun. Felly, mae'n bwysig i'r rhyngwyneb rhwng y cwmnïau hyn a'r rheoleiddiwr fod yn glir.

Yn ogystal, byddai'n rhesymol gofyn i gwmnïau dŵr gynnal ymarfer rheoli sychder blynyddol a gaiff ei archwilio'n allanol (er enghraifft, gan) Cyfoeth Naturiol Cymru).

Ni nodwyd unrhyw bryderon eraill gan yr ymatebwyr.

Ein hymateb

Mae canllawiau cynllun sychder y cwmnïau dŵr (adran 7) yn gofyn iddynt amlinellu eu cynllun cyfathrebu (sy'n cynnwys cyfathrebu gyda chwsmeriaid) ynghylch y canlynol:

- sut mae sychder yn datblygu
- sut y gallai effeithio ar eu cyflenwad
- beth rydych chi'n ei wneud i'w reoli

Hefyd, mae'r cynlluniau sychder yn aml yn cynnwys 'cadwyn o ddigwyddiadau' gan barthau adnoddau dŵr sy'n cynnwys:

- gyda phwy y byddant yn cyfathrebu (eu cynulleidfaoedd)
- sut a phryd y byddant yn cyfathrebu
- enghreifftiau o beth fyddant yn cyhoeddi wrth i'r sychder ddatblygu

Ewch i [egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru](#) o ran ymarferion sychder. Dylai cwmnïau dŵr drefnu ymarferion rheolaidd er mwyn profi eu cynllun sychder. Dylent gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu Asiantaeth yr Amgylchedd ynghlŷn â chymryd rhan mewn arferion sychder ar y cyd.

Fel y nodir o dan gwestiwn 1, ar gyfer argyfyngau sifil, bydd y gweithgareddau hyn yn dod o dan gynlluniau argyfwng, sy'n ddogfennau ar wahân i gynlluniau sychder cwmnïau dŵr. Felly, maent y tu hwnt i gylch gwaith y canllawiau hyn.

Cam gweithredu

Ni chynigiwyd unrhyw welliant pellach i'r canllawiau cynllun sychder.

Adborth cyffredinol ar y canllawiau

Rhowch unrhyw adborth pellach ar y canllawiau, yn enwedig o ran unrhyw beth sydd angen ei fireinio ymhellach neu y dylid ei gynnwys.

Derbyniwyd adborth cadarnhaol i'r canllawiau gan yr ymatebwyr a chydabuwyd eu bod ar y cyfan wedi'u halinio gyda dogfen Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer cwmnïau dŵr sydd yn gyfangwbl neu'n bennaf yn Lloegr. Dywedodd un arall o'r ymatebwyr fod y canllawiau yn gynhwysfawr ac nad oedd ganddo unrhyw bryderon ynghylch eu cynnwys. Roedd un arall o'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi ein bod wedi darparu dolenni allweddol i gynllun sychder y cwmni dŵr a'r cynllun rheoli adnoddau dŵr.

Roedd adborth cyffredinol arall fel a ganlyn:

Sylwadau	Ein hymateb	Cam gweithredu
Adran 7.1, paragraff 4, ystyried ychwanegu "Ofwat" neu "rheoleiddwyr" yn gyffredinol i'r rhestr o randdeiliaid y dylid eu diweddarau fel rhan o'r cynllun cyfathrebu.	Byddwn ni'n sicrhau bod fersiwn derfynol y canllaw yn cynnwys Ofwat a rheoleiddwyr eraill yn adran 7.1.	
Adran 8.2, paragraff 3, ystyried ychwanegu "lefelau gwasanaeth" yn y rhestr o newidiadau posibl y dylid eu hadlewyrchu yn y cynllun rheoli adnoddau dŵr yn dilyn adolygiad ar ôl sychder.	Byddwn ni'n sicrhau bod fersiwn derfynol y canllawiau yn cynnwys "lefelau gwasanaeth" yn adran 8.2.	
Nid yw lleihau sefyllfaoedd o sychder yn y dyfodol drwy leihau gollyngiadau yn cael ei grybwyll. A ddylid adolygu targedau gollyngiadau?	Mae'r cynllun sychder yn amlinellu'r mesurau gweithredol a gymerir yn ystod sychder, a fydd yn cynnwys gwella rheoli gollyngiadau (y tu hwnt i'w rhaglenni gollyngiadau arferol). Bydd mesurau i gynyddu gwydnwch i sychder, fel lleihau gollyngiadau, yn cael eu hasesu fel rhan o'r broses cynllun rheoli adnoddau dŵr.	Ni chynigiwyd unrhyw welliant pellach ar gyfer y canllawiau cynllun sychder.

	<p>Amlinellwyd polisi gollyngiadau gan Lywodraeth Cymru yn ei hegwyddorion arweiniol ar gyfer cynlluniau rheoli adnoddau dŵr (cynlluniau 25 mlynedd).</p> <p>Hefyd, mae Ofwat yn amlinellu disgwyliadau ar gyfer ymrwymadau perfformiad gan gwmnïau dŵr ar gyfer lleihau gollyngiadau.</p>	
<p>Mae polisi a dull Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y lefel o wybodaeth a gynhwysir yn y cynllun sychder ar gyfer bod yn barod ar gyfer trwydded/gorchymyn sychder ychydig yn wahanol i Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd yn nodi bod angen i gwmnïau fod yn barod ar gyfer trwydded/gorchymyn sychder beth bynnag y bo'r tebygolrwydd.</p> <p>A fyddai efallai yn werth ychwanegu brawddeg yn y manau hyn yn atgyfnerthu ble y bo trwyddedau neu orchymynion yn effeithio Lloegr y mae angen iddynt ddilyn canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd gan eu bod yn wahanol?</p>	<p>Ar gyfer cwmnïau dŵr sydd yn gyfangwbl neu'n bennaf yng Nghymru, caiff y polisi o ran beth ddylid ei gynnwys mewn cynllun sychder ei bennu gan Lywodraeth Cymru. Mae <u>egwyddorion arweiniol</u> Llywodraeth Cymru yn nodi: "Dylai'r wybodaeth ar gyfer trwyddedau a gorchymynion sychder a gynhwysir mewn cynllun sychder fod 'mor agos' i fod yn barod ar gyfer cais â phosibl, yn enwedig ar gyfer y safleoedd hynny a nodwyd fel rhai sy'n achosi effaith sylweddol i'r amgylchedd neu sydd fwyaf tebygol o fod eu hangen yn ystod sychder."</p> <p>Rydym yn cytuno bod hyn ychydig yn wahanol i'r polisi cyfredol ar gyfer cynlluniau sychder cwmnïau dŵr (sydd yn gyfangwbl neu'n bennaf yn Lloegr) fel y'i diffinir gan ganllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd.</p>	<p>Byddwn ni'n diwygio adran 4.3.1 o'r canllawiau er mwyn sicrhau ei bod yn glir bod y cwmnïau dŵr sydd yn gyfangwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn ddarostyngedig i bolisi Llywodraeth Cymru o ran bod yn barod ar gyfer trwydded/gorchymyn sychder.</p> <p>Byddwn ni hefyd yn sicrhau ei bod yn glir ar gyfer cwmnïau dŵr sydd yn gyfangwbl neu'n bennaf yn Lloegr gyda safleoedd sy'n effeithio ar Gymru, y dylent ddilyn canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd o ran bod yn barod ar gyfer trwydded/gorchymyn sychder.</p> <p>Byddwn ni'n argymhell y dylai cwmnïau dŵr ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn gynnar er mwyn trafod eu disgwyliadau o ran bod yn barod gyda'r cais.</p>
<p>Roedd ymholiad ynghylch cynghori cwmnïau i gynnal Aseiad</p>	<p>Ar gyfer y cwmnïau dŵr sydd yn gyfangwbl neu'n bennaf yng</p>	<p>Byddwn ni'n diwygio'r geiriad yn y canllawiau cynllun sychder i</p>

<p>Amgylcheddol Strategol / Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer eu cynlluniau. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd ond yn ei wneud yn ofynnol i asesu os oes angen Aseiad Amgylcheddol Strategol / Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd a'u cwblhau os yw hynny'n angenrheidiol.</p>	<p>Nghymru, mae'r polisi o ran Aseiad Amgylcheddol Strategol / Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'n nodi y dylai cwmnïau dŵr gynnal Aseiad Amgylcheddol Strategol ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd o'u cynllun sychder. Dylent hefyd ymgorffori unrhyw ofynion ychwanegol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (ble y bo'n briodol).</p>	<p>adlewyrchu'r canlynol:</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hegwyddorion arweiniol y dylai cwmnïau dŵr gynnal Aseiad Amgylcheddol Strategol ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd o'u cynllun sychder. Felly, dylent sgrinio er mwyn pennu a oes angen pob cam o'r Aseiad Amgylcheddol Strategol ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd.</p>
<p>Ni chrybwyllir fetio neu fonitro/archwilio cynlluniau sychder cwmnïau.</p>	<p>Mae'r broses gynllunio ar gyfer sychder a sut y mae ymgynghoreion statudol yn adolygu a chynghori ar gynlluniau sychder yn cael eu hamlinellu yn egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Ni chynigiwyd unrhyw welliant pellach ar gyfer y canllawiau cynllun sychder.</p>
<p>O ran cyfrinachedd masnachol, rydym yn tybio os yw'n effeithio ar Loegr, byddai angen i'r cwmni gyflwyno rhywbeth i DEFRA – a ddylen ni ychwanegu hynny fan hyn?</p>	<p>Mae cynlluniau sychder cwmnïau dŵr (sydd yn gyfangwbl neu'n bennaf yng Nghymru) yn dod o dan drefn lywodraethol Llywodraeth Cymru. Mae'n cyfarwyddo'r cwmnïau hyn i gyflwyno cynlluniau sychder ac unrhyw faterion sy'n fasnachol gyfrinachol / ymwneud â diogelwch cenedlaethol i Lywodraeth Cymru. Mater i Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod DEFRA yn cael ei hysbysu ynghylch unrhyw beth a allai effeithio ar Loegr.</p>	<p>Ni chynigiwyd unrhyw welliant pellach ar gyfer y canllawiau cynllun sychder.</p>
<p>Ni chrybwyllir unrhyw rhyngwynebu gyda</p>	<p>Mae gofyniad yn y cynllun sychder i sicrhau bod</p>	<p>Ni chynigiwyd unrhyw welliant pellach ar gyfer y</p>

gwasanaethau brys lleol.	Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol a gwasanaethau brys) yn rhanddeiliaid yn y cynllun cyfathrebu.	canllawiau cynllun sychder.
--------------------------	---	-----------------------------

3 Y Camau Nesaf

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio i lywio fersiwn derfynol Canllawiau Technegol Cynllun Sychder y Cwmnïau Dŵr, a gyhoeddir ar ein gwefan erbyn canol mis Tachwedd 2017. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer cwmnïau dŵr sydd yn gyfangwbl neu'n bennaf yng Nghymru a dylid eu defnyddio ar y cyd ag egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu cynllun sychder cwmni dŵr ar gyfer 2020.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am gynlluniau sychder y cwmnïau dŵr ar ein gwefan.

Fel arall, gallwch gysylltu â:

Tracey Dunford, Prif Gynllunydd Adnoddau Dŵr, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru